

Cynigion trefniadaeth ysgolion - canllaw i etholwyr

Mai 2021



Senedd Cymru yw'r corff sy'n cael ei ethol yn ddemocrataidd i gynrychioli buddiannau Cymru a'i phobl. Mae'r Senedd, fel y'i gelwir, yn deddfu ar gyfer Cymru, yn cytuno ar drethi yng Nghymru, ac yn dwyn Llywodraeth Cymru i gyfrif.

Gallwch weld copi electronig o'r ddogfen hon ar wefan y Senedd:

www.ymchwil.senedd.cymru

Gellir cael rhagor o gopïau o'r ddogfen hon mewn ffurfiau hygyrch, yn cynnwys Braille, print bras, fersiwn sain a chopïau caled gan:

Senedd Cymru

Tŷ Hywel

Bae Caerdydd

CF99 1SN

Ffôn: **0300 200 7301**

E-bost: Phil.Boshier@Senedd.Cymru

Twitter: [@SeneddYmchwil](https://twitter.com/SeneddYmchwil)

Gwefan: ymchwil.senedd.cymru

© **Hawlfraint Comisiwn Senedd Cymru 2021**

Ceir atgynhychu testun y ddogfen hon am ddim mewn unrhyw fformat neu gyfrwng cyn belled ag y caiff ei atgynhychu'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol na difriol. Rhaid cydnabod mai Comisiwn y Senedd Cymru sy'n berchen ar hawlfraint y deunydd a rhaid nodi teitl y ddogfen.

Cynigion trefniadaeth ysgolion

- canllaw i etholwyr

Mai 2021

Awduron:
Michael Dauncey



Cynnwys

Cyflwyniad.....	1
Trosolwg o'r Cod Trefniadaeth Ysgolion	1
Datblygu ac ystyried cynigion	2
Ymgynghori ynglŷn â chynigion	6
Cyhoeddi cynigion ar ffurf hysbysiad statudol	8
Penderfynu ar gynigion	8
Cynigion gan Lywodraeth Cymru	11

Cyflwyniad

Gelwir cynigion i gau neu gyfuno ysgolion, neu wneud newidiadau i'w categori llywodraethu neu gyfrwng iaith, yn gynigion trefniadaeth ysgolion, y mae'n rhaid eu cyflawni yn unol â **Deddf Safonau a Threfniadaeth Ysgolion (Cymru) 2013**. Mae **Cod Trefniadaeth Ysgolion** Llywodraeth Cymru (ail argraffiad, a gyhoeddwyd yn 2018) yn darparu canllawiau statudol ar sut y dylai 'cyrff perthnasol' (Gweinidogion Cymru, awdurdodau lleol, cyrff llywodraethu a hyrwyddwyr cynigion eraill) o dan y Ddeddf gyflawni eu dyletswyddau.

Roedd Deddf 2013 a'r Cod yn symud oddi wrth y drefn flaenorol, lle y byddai unrhyw wrthwynebiad ffurfiol i gynnig yn golygu y byddai'n cael ei gyfeirio at Weinidogion Cymru i'w penderfynu gan droi yn hytrach at **drefn lle mae'r corff perthnasol (awdurdodau lleol yn y rhan fwyaf o achosion) yn gallu penderfynu ynghylch y cynnig, ar wahân i eithriadau penodol** a chyn belled ag y byddant yn cydymffurfio â phroses benodedig.

Trosolwg o'r Cod Trefniadaeth Ysgolion

Mae'r Cod Trefniadaeth Ysgolion ('y Cod') yn gosod gofynion y mae'n rhaid i'r cyrff perthnasol gydymffurfio â hwy wrth weithredu. Mae'n cynnwys canllawiau ymarferol y mae'n rhaid i gyrff perthnasol roi sylw dyledus iddynt ac mae'n gosod y cyd-destun polisi, yr egwyddorion cyffredinol a'r ffactorau y dylai'r rhai sy'n cyflwyno cynigion i ad-drefnu darpariaeth ysgolion, a'r rhai sy'n gyfrifol am benderfynu ynghylch y cynigion, eu hystyried.

Mae'r Cod hefyd yn cynnwys canllawiau am brosesau y mae'n **rhaid** eu dilyn wrth ymgynghori ynglŷn â chynnig ac wedyn wrth ei gyhoeddi, yn ogystal â phennu pwy sy'n cael penderfynu beth fydd canlyniad y cynnig.

Mae'r Cod yn gwahaniaethu rhwng yr hyn y mae'n rhaid i gyrff perthnasol ei wneud a'r hyn y **dylent** ei wneud.

Cafodd rhifyn cyntaf y Cod Trefniadaeth Ysgolion, a gyhoeddwyd yn 2013, ei ddisodli gan ail rifyn yn 2018. Mae cynigion a oedd yn destun ymgynghoriad cyn i'r ail God ddod i rym (1 Tachwedd 2018) yn cael eu penderfynu o dan God 2013.

Noder: Ar adeg ysgrifennu (Ebrill 2021), roedd Llywodraeth Cymru wedi **addasu dros dro** rai gofynion yn y Cod yn ystod pandemig y Coronafeirws. Mae'r

newidiadau dros dro hyn yn ymwneud yn bennaf â'r hyn a ystyrir yn 'ddiwrnod ysgol' yn ystod cyfnodau o gau ysgolion. Nid yw'r cyfeiriadau at ofynion y Cod yn y papur hwn yn ystyried y newidiadau dros dro hyn ac mae'n adlewyrchu'r sefyllfa arferol.

Datblygu ac ystyried cynigion

Mae'r rhan fwyaf o gynigion trefniadaeth ysgolion yn cael eu cyflwyno gan yr awdurdod lleol. O ran ysgolion cymunedol, yr unig gynnig y gall y corff llywodraethu ei gyhoeddi ei hun yw newid categori; mae angen i'r awdurdod lleol gyhoeddi pob cynnig arall fel cau neu newid sylweddol. Gall cyrff llywodraethu ysgolion sefydledig neu wirfoddol wneud cynigion i derfynu neu wneud newid rheoledig i'w hysgol.

Gall unrhyw un wneud cynigion i sefydlu ysgol wirfoddol newydd. Fodd bynnag, dylai awdurdodau lleol weithio gyda'r corff crefyddol perthnasol yn achos cynigion i sefydlu ysgol wirfoddol ac iddi gymeriad crefyddol.

Mae Deddf 2013 yn atal ysgol rhag newid ei chategori i ddod yn ysgol sefydledig neu i sefydlu unrhyw ysgol sefydledig newydd.

Mae Pennod 1 o'r Cod yn rhestru'r hyn y dylid ei ystyried pan fydd cyrff perthnasol yn datblygu ac yn ystyried cynigion. Mae tri phrif gategori o ffactorau i'w hystyried.

Yn gyntaf, wrth ystyried ansawdd a safonau addysg, dylai cyrff perthnasol roi buddiannau dysgwyr uwchlaw popeth arall.

Dylai cyrff perthnasol roi'r pwys mwyaf ar effaith debygol y cynigion ar ansawdd y deilliannau, y ddarpariaeth, ac arweinyddiaeth a rheolaeth yn yr ysgol(ion) dan sylw ac ar unrhyw ysgolion eraill y mae'r cynigion yn debygol o effeithio arnynt. Dylai cyrff perthnasol ystyried hefyd yr effaith ar grwpiau agored i niwed, gan gynnwys plant ag Anghenion Dysgu Ychwanegol (ADY).

Dylid ystyried gallu'r ysgol(ion) dan sylw i ddarparu'r cwricwlwm cyflawn yn ogystal ag ansawdd y cwricwlwm a ddarperir. Os bydd cynnig yn golygu trosglwyddo'r ddarpariaeth o un ysgol i ysgol arall, dylai fod tystiolaeth ar gael i ddangos y bydd hyn yn arwain at ddarpariaeth cystal neu'n well. Dylid ystyried adroddiadau arolygiadau a chyingor gan Estyn fel rhan o'r broses hon.

Yn ail, dylai cyrff perthnasol ystyried yr angen am leoedd a'r effaith ar hygyrchedd ysgolion.

Rhaid i awdurdodau lleol sicrhau bod digon o ysgolion yn darparu addysg gynradd ac uwchradd ar gyfer eu hardal. O dan adran 14 o Ddeddf Addysg 1996, mae ysgolion yn cael eu hystyried yn ddigonol os ydynt yn ddigonol o ran nifer, o ran cymeriad ac o ran cyfarpar er mwyn rhoi'r cyfle i bob disgybl gael addysg briodol.

Os cynigir cau ysgol, lleihau capasiti neu gyfyngu ar yr ystod oedran, dylai'r cyrff perthnasol roi sylw i'r ffactorau canlynol:

- a fydd y ddarpariaeth ysgol amgen yn cynnig digon o gapasiti ac a fydd yn darparu lle sydd o leiaf cystal o ran ansawdd ar gyfer nifer y disgyblion ar y pryd a'r nifer a ragwelir;
- o ran natur yr ysgolion dan sylw, a yw'r ddarpariaeth ysgol amgen yn ddigonol i ddiwallu'r galw ar y pryd a'r galw a ragwelir am ysgolion o'r un categori iaith neu o'r un cymeriad crefyddol dynodedig;
- natur y teithiau i'r ddarpariaeth amgen a'r amserau teithio yn sgil hynny i'r disgyblion, gan gynnwys disgyblion ag ADY; yn arbennig, a fydd teithiau un ffordd i ddisgyblion ysgolion cynradd yn hwy na 45 munud neu deithiau un ffordd i ddisgyblion ysgol uwchradd yn hwy nag awr.

Os bydd y cynnig yn golygu agor ysgol newydd, cynyddu'r capasiti neu ehangu'r ystod oedran, dylai'r cyrff perthnasol roi sylw i'r ffactorau canlynol:

- a oes digon o dystiolaeth o'r angen/galw yn yr ardal yn y dyfodol am y lleoedd ychwanegol, o ran categori iaith, cymeriad crefyddol dynodedig a'r rhywiau;
- a fydd y cynigion yn gwella mynediad i ddisgyblion anabl yn unol â'r gofynion o dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010.

Yn drydydd, dylai'r cyrff perthnasol ystyried yr adnoddau ar gyfer addysg a'r goblygiadau ariannol eraill er mwyn i'r cyllid ar gyfer addysg fod yn gost-effeithiol.

Dylid ystyried y ffactorau canlynol o ran **adnoddau**:

- yr effaith y bydd y cynigion yn ei chael ar leoedd gwag yn yr ardal. (Lle mae mwy na 10% o leoedd dros ben mewn ardal yn gyffredinol, dylai awdurdodau lleol adolygu eu darpariaeth a dylent ystyried a ddylid gwneud cynigion i'w dileu os bydd hyn yn gwella effeithiolrwydd ac effeithlonrwydd y ddarpariaeth);
- a yw'r cynigion yn rhan o raglen buddsoddi cyfalaf yr awdurdod yn Ysgolion yr

2lain Ganrif ac yn cyfrannu at ddarparu ysgolion cynaliadwy ac at reoli ystâd yr ysgolion yn well o safbwynt strategol.

Dylid ystyried y ffactorau canlynol o ran **cyllid:**

- costau rheolaidd cynigion dros gyfnod o dair blynedd o leiaf ac a yw'r cyllid rheolaidd angenrheidiol ar gael ar gyfer adnoddau;
- costau trafndiaeth ychwanegol yn sgil y cynigion;
- costau cyfalaf cynigion ac a yw'r arian cyfalaf angenrheidiol ar gael;
- maint unrhyw arbedion net a ragwelir;
- a fyddai'r ysgol(ion) dan sylw yn wynebu diffygion yn eu cyllideb heblaw am y cynigion;
- a fydd unrhyw arbedion ar gostau rheolaidd yn cael eu cadw yng nghyllideb ysgolion lleol yr awdurdod lleol;
- a fydd yr arian a wneir wrth werthu (derbyniadau cyfalaf) safleoedd segur ar gael i dalu costau'r cynnig neu i gyfrannu at gostau cynigion yn y dyfodol a fydd o gymorth i reoli lleoedd mewn ysgolion mewn ffordd effeithiol.

Mae rhagor o fanylion am sut y caiff y ffactorau hyn eu rhoi ar waith yn adran 1.3 i 1.5 o'r Cod.

Ffactorau eraill

Mae'r Cod hefyd yn rhestru nifer o **ffactorau cyffredinol** eraill i'w hystyried, gan gynnwys yr effaith ar gyrhaeddiad addysgol plant o gefndiroedd economaidd difreintiedig; unrhyw faterion o ran cydraddoldeb; ac a yw'r ysgol(ion) dan sylw yn destun unrhyw ymddiriedolaeth neu fuddiannau elusennol y gallai'r cynigion effeithio arnynt.

Er mai prif bwrpas ysgolion yw darparu addysg, ac y dylai unrhyw achos dros gau ysgol fod er budd gorau'r ddarpariaeth addysg yn yr ardal, mae'r Cod hefyd yn pennu nifer o ystyriaethau ynghylch yr **effaith ar y gymuned ehangach** lle bydd cynnig i gau ysgol. Enghraifft o hyn fyddai lle bydd adeiladau ysgol yn cael eu defnyddio fel cyfleusterau cymunedol neu lle bydd opsiynau i sefydlu ysgol â mwy nag un safle er mwyn cadw adeiladau neu glystyru, cydweithio neu ffedereiddio gydag ysgolion eraill. Felly dylai cynigion fod yn destun Asesiad Effaith ar y Gymuned.

Mae'r Cod (adrannau 1.9 – 1.13) yn nodi nifer o **ffactorau eraill** y dylid eu hystyried ym mhob un o'r **mathau penodol o gynnig** a restrir isod:

- cynigion i ychwanegu neu i ddileu dosbarthiadau meithrin;
- cynigion i ad-drefnu ysgolion uwchradd neu i ychwanegu neu ddileu chweched dosbarth;
- cynigion i gynyddu'r ddarpariaeth mewn ysgolion gwirfoddol neu i sefydlu ysgol wirfoddol Newydd;
- cynigion i newid y cyfrwng iaith;
- cynigion i newid categori'r ysgol.

Mae ffactorau ychwanegol i'w hystyried lle bydd cynigion yn ceisio ad-drefnu'r ddarpariaeth Anghenion Dysgu Ychwanegol (ADY). Dylai cyrff perthnasol ystyried sut mae'r cynigion yn cyd-fynd â chynlluniau'r awdurdod lleol i hybu cynhwysiant (h.y. darparu ar gyfer cyfran uwch o ddisgyblion sydd ag ADY er mwyn iddynt fynychu lleoliadau'r brif ffrwd) lle bynnag y bo hynny'n briodol er mwyn diwallu anghenion unigol plentyn neu berson ifanc, ac o fewn ei strategaeth gyffredinol ar gyfer sicrhau darpariaeth ddigonol ar gyfer yr ystod gyfan o ADY. Rhestrir ffactorau ychwanegol ym mharagraff 1.14.

Mae Atodiad E hefyd yn rhestru nifer o egwyddorion a pholisïau cefndir allweddol megis Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn (UNCRC), strategaeth Cymraeg 2050 Llywodraeth Cymru, a'r Canllawiau Gweithredol ynghylch y Mesur Teithio gan Ddysgwyr.

Rhagdybiaeth yn erbyn cau ysgolion gwledig

Y prif reswm y cyhoeddwyd ail argraffiad o'r Cod yn 2018 oedd er mwyn cyflwyno **rhagdybiaeth yn erbyn cau ysgolion gwledig**. Roedd hyn yn dilyn y cytundeb yn 2016 rhwng Kirsty Williams, sef y Gweinidog Addysg yn ystod y Bumed Senedd a'r Prif Weinidog ar y pryd, Carwyn Jones.

Nid yw'r rhagdybiaeth yn golygu na fydd ysgol wledig byth yn cau. Fodd bynnag, rhaid i'r achos dros gau fod yn gryf ac ni ddylid gwneud y penderfyniad i gau ysgol hyd nes i bob opsiwn arall gael ei ystyried yn gydwybodol, gan gynnwys ffedereiddio. Rhoddir esboniad pellach yn adran 1.8, a rhestr o ysgolion gwledig dynodedig a ddarperir yn Atodiad F, o'r Cod.

Ymgynghori ynglŷn â chynigion

Mae Adran 48 o Ddeddf 2013 yn mynnu, cyn cyhoeddi cynigion ynghylch trefniadaeth ysgolion, ei bod yn **rhaid ymgynghori yn eu cylch gyntaf**. Nid yw'r gofyniad i ymgynghori'n berthnasol i gynigion i gau ysgol fach (llai na 10 o ddisgyblion).

Mae cyfraith achos wedi sefydlu'r **pedair egwyddor** ganlynol ar gyfer ymgynghori:

- dylid ymgynghori pan fydd y cynigion yn dal ar gam ffurfiannol;
- dylid cynnwys digon o resymau a gwybodaeth ynglŷn â chynigion penodol er mwyn sicrhau ystyriaeth ac ymateb deallus;
- dylid rhoi digon o amser i bobl ystyried y cynigion ac ymateb iddynt;
- dylid sicrhau y caiff yr hyn sy'n deillio o'r ymgynghoriad ei ystyried mewn ffordd gydwbodol pan wneir y penderfyniad terfynol.

Os bydd ymgynghori anffurfiol â rhanddeiliaid penodol yn ystod cam cynharach y broses, rhaid peidio ag ystyried bod hynny'n disodli'r prosesau ymgynghori ffurfiol.

Rhaid i'r sawl sy'n cyhoeddi cynnig drwy hysbysiad statudol fod wedi cyhoeddi dogfen ymgynghori ar ffurf copi caled ac electronig ar eu gwefan neu ar wefan yr awdurdod lleol. Mae adran 3.4 o'r Cod yn rhestru'r bobl a'r sefydliadau y mae'n rhaid anfon y ddogfen ymgynghori atynt.

Rhaid cyhoeddi'r ddogfen ymgynghori yn ystod tymor yr ysgolion dan sylw a rhaid rhoi o leiaf **42 diwrnod** i'r rhai yr ymgynghorir â hwy ymateb i'r ddogfen, gydag o leiaf **20 o'r rhain yn ddiwrnodau ysgol**. Ym mhob cynnig, rhaid i'r ddogfen ymgynghori gynnwys y wybodaeth ganlynol:

- disgrifiad a manteision;
- manylion yr ysgolion y mae'r cynnig yn effeithio arnynt;
- ansawdd a safonau mewn Addysg;
- yr effaith ar ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg;
- cyllid;
- unrhyw dir ac adeiladau y gellid eu trosglwyddo.
- manylion ymgynghori (sut i ymateb neu sut i gael gafael ar ragor o wybodaeth ac ati)

(Mae rhagor o fanylion am bob un o'r uchod yn adran 3.4 o'r Cod.)

Mae'r Cod hefyd yn rhestru gwybodaeth benodol y mae'n rhaid ei chynnwys yn y ddogfen ymgynghori yn dibynnu a yw'r cynnig yn ymwneud ag ysgol newydd, cau ysgol, ysgol arbennig, darpariaeth chweched dosbarth, ysgol cyfrwng Cymraeg, ysgol ffydd, ysgol wledig ynteu newid categori.

Rhaid i'r cynigydd wneud trefniadau priodol i ymgynghori â disgyblion unrhyw ysgol yr effeithir arni a, lle bo modd, â'r plant a'r bobl ifanc sy'n debygol o fynychu'r ysgolion hynny. Fan leiaf, rhaid i hyn gynnwys ymgynghori â chynghorau ysgol yr ysgolion dan sylw ond dylai hefyd gynnwys ymgynghori â dysgwyr unigol lle bo hynny'n briodol ac yn ymarferol.

Nid oes gofyniad i gynnal cyfarfodydd ymgynghori er bod y Cod yn dweud y gallai hyn fod o fudd i gynigwyr.

Yn dilyn yr ymgynghoriad, rhaid i'r cynigydd gyhoeddi **adroddiad ymgynghori** sy'n:

- crynhoi pob mater a godwyd gan yr ymgynghoreion;
- ymateb i'r rhain ar ffurf esboniad, diwygiad i'r cynnig neu wrthod y pryderon, gan nodi rhesymau i gefnogi hynny;
- nodi barn Estyn (fel y nodir yn ei ymateb i'r ymgynghoriad) am rinweddau cyffredinol y cynnig;
- ymateb i farn Estyn ar ffurf esboniad, diwygiad i'r cynnig neu wrthod y pryderon, gan nodi rhesymau i gefnogi hynny.

Gallai'r adroddiad ymgynghori wneud argymhellion hefyd – er enghraifft, i weithrediaeth yr awdurdod lleol neu i'r corff llywodraethu – ynghylch sut i fwrw ymlaen.

Rhaid cyhoeddi'r adroddiad ymgynghori ar ffurf electronig a darparu copïau caled os gwneir cais amdanynt. Rhaid rhoi gwybod i ddisgyblion, rhieni, gofalwyr a gwarcheidwaid, aelodau o staff yr ysgolion dan sylw, a'r ymgynghoreion sydd wedi gofyn am gael ei hysbysu bod yr adroddiad ar gael. Mae'r Cod (adran 3.6) hefyd yn rhestru pobl a chyrrff y mae angen rhoi gwybod iddynt am yr adroddiad.

Nid yw'r cyfnod ymgynghori yr un fath â'r cyfnod gwrthwynebu statudol,

sy'n dilyn cam diweddarach, sef cyhoeddi'r cynnig ar ffurf hysbysiad statudol. Dylid rhoi gwybod i'r ymgynghoreion sy'n mynegi barn yn erbyn y cynnig **na fydd eu sylwadau'n cael eu trin fel gwrthwynebiadau** ac, os ydynt yn dymuno gwrthwynebu, y bydd angen iddynt wneud hynny yn ystod y cyfnod gwrthwynebu statudol.

Cyhoeddi cynigion ar ffurf hysbysiad statudol

Ar ôl cynnal yr ymarfer ymgynghori a chyhoeddi'r adroddiad ymgynghori, os bydd y cynigydd yn penderfynu bwrw ymlaen, rhaid iddo gyhoeddi'r cynnig ar ffurf hysbysiad statudol. Ni ellir gwneud hyn cyn i bythefnos fynd heibio ers cyhoeddi'r adroddiad ymgynghori.

Oni fydd y cynigwyr wedi gwneud cais i Weinidogion Cymru am estyniad, a bod y Gweinidogion wedi caniatáu hynny, **rhaid cyhoeddi cynigion cyn pen 26 wythnos i ddiwedd y cyfnod ymgynghori**. Fel arall, bydd y cynigion yn dirwyn i ben a rhaid cynnal ymarfer ymgynghori newydd i'w hadnewyddu.

Rhaid cyhoeddi cynigion ar ddiwrnod ysgol. Mae pennod 4 o'r Cod yn dweud ymhle y mae'n rhaid cyhoeddi'r hysbysiad a beth y mae'n rhaid iddo'i gynnwys.

Rhaid i unrhyw un sy'n dymuno cofrestru **gwrthwynebiad statudol** i'r cynnig wneud hynny drwy anfon llythyr neu e-bost at y cynigydd cyn pen **28 diwrnod ar ôl cyhoeddi'r cynnig**. Gelwir y cyfnod hwn o 28 diwrnod yn **'gyfnod gwrthwynebu'** a rhaid iddo gynnwys 15 diwrnod ysgol (yn ogystal â'r diwrnod cyhoeddi).

Penderfynu ar gynigion

Rhaid i'r cynigwyr gyhoeddi crynodeb o'r gwrthwynebiadau statudol a'u hymateb i'r gwrthwynebiadau hynny. Lle bydd awdurdod lleol yn gallu penderfynu ynghylch ei gynigion ei hun, **rhaid cyhoeddi'r adroddiad cyn pen 7 diwrnod ar ôl penderfynu ynghylch y cynnig**. Ym mhob achos arall, rhaid cyhoeddi'r adroddiad cyn pen 28 diwrnod i ddiwedd y cyfnod gwrthwynebu.

Rhaid cyhoeddi'r adroddiad gwrthwynebu ar ffurf electronig a darparu copïau caled os gwneir cais am hynny. Rhaid rhoi gwybod i rieni, gofalwyr a gwarcheidwaid ac aelodau o staff yr ysgolion yr effeithir arnynt bod yr adroddiad ar gael. Mae'r Cod (pennod 5) hefyd yn rhestru'r bobl a'r cyrff y mae angen rhoi

gwybod iddynt am yr adroddiad.

Eithriadau i'r rheol gyffredinol bod awdurdodau lleol yn penderfynu ynghylch cynigion

Caiff awdurdodau lleol benderfynu ynghylch eu cynigion eu hunain heblaw am rai eithriadau penodol. Mae Adran 5.2 o'r Cod yn nodi dau eithriad lle mae'n ofynnol cael cymeradwyaeth gan Weinidogion Cymru:

- os bydd y cynigion yn effeithio ar **addysg y chweched dosbarth; neu**
- os bydd y cynigion wedi'u gwneud gan **gynigydd ar wahân i'r awdurdod lleol perthnasol a bod yr awdurdod hwnnw wedi cyflwyno gwrthwynebiad** nad yw wedi'i dynnu'n ôl yn ysgrifenedig cyn pen 28 diwrnod o ddiwedd y cyfnod gwrthwynebu.

Dywedir bod cynigion yn effeithio ar addysg chweched dosbarth:

- os byddant yn gynigion i sefydlu neu gau ysgol sy'n darparu addysg sy'n addas i ofynion unigolion hŷn na'r oedran ysgol gorfodol yn unig; neu
- os byddant yn gynigion i wneud newid a reoleiddir i ysgol, a fyddai'n cynyddu neu'n lleihau y ddarpariaeth addysg sy'n addas i ofynion unigolion hŷn nag oedran ysgol gorfodol.

(Mae adran 2.3 o'r Cod yn dweud bod 'cyflwyno darpariaeth chweched dosbarth mewn ysgol neu ddod â'r ddarpariaeth honno i ben' yn 'newid a reoleiddir'.)

Gall fod achosion lle mae'r cynnig wedi'i wneud gan rywun ar wahân i'r awdurdod lleol perthnasol (er enghraifft cyrff llywodraethu ysgolion gwirfoddol neu sefydledig). Lle nad yw un o'r eithriadau sy'n ei gwneud yn ofynnol cael cymeradwyaeth Gweinidogion Cymru yn berthnasol, a lle nad oes gwrthwynebiad wedi bod (a fyddai'n ei gwneud yn ofynnol i'r awdurdod lleol perthnasol ei gymeradwyo), **caiff cynigwyr benderfynu eu hunain ynghylch y cynnig** cyn pen 16 wythnos i ddiwedd y cyfnod gwrthwynebu.

Awdurdodau lleol yn penderfynu

Os cyflwynir gwrthwynebiadau i'r awdurdod lleol yn ystod y cyfnod gwrthwynebu, a bod modd i'r awdurdod benderfynu ei hun ynghylch y cynnig, mae'r Cod (adran 5.4) yn dweud:

- rhaid i'r awdurdod lleol **beidio ag ystyried y cynigion hynny gyda meddwl caeedig**. Rhaid i'r gwrthwynebiadau gael eu hystyried yn gydwybodol ochr yn

ochr â'r dadleuon mewn perthynas â'r cynigion ac yng ngoleuni'r ffactorau i'w hystyried wrth ddatblygu ac ystyried cynigion;

- gall **Gweithrediaeth neu Gabinet yr awdurdod lleol** benderfynu ar y cynigion (y penderfyniad). Fodd bynnag, gall yr awdurdod lleol ddewis defnyddio 'Pwyllgor penderfynu lleol' o ryw fath, megis y model a ddisgrifir yn Atodiad E i'r Cod;
- rhaid i'r awdurdod lleol gyhoeddi adroddiad gwrthwynebu yn crynhoi'r gwrthwynebiadau statudol a'i ymateb i'r gwrthwynebiadau hynny. Rhaid cyhoeddi hwn cyn pen saith diwrnod i benderfynu ar y cynnig.

Rhaid cyhoeddi **penderfyniadau** ar ffurf ysgrifenedig a'u cyhoeddi'n electronig, gan nodi'n glir y rhesymau dros y penderfyniad. Rhaid rhoi gwybod i rieni, gofalwyr a gwarcheidwaid ac i aelodau staff yr ysgolion yr effeithir arnynt am y penderfyniad. Mae'r Cod yn rhestru'r bobl a'r cyrff y mae'n rhaid rhoi gwybod iddynt am yr adroddiad gwrthwynebu a'r penderfyniad (adrannau 5.1 a 5.6 yn y drefn honno).

Atgyfeirio penderfyniadau i Weinidogion Cymru

Ar ôl i'r awdurdod lleol wneud ei benderfyniad gwreiddiol, o dan adran 54 o Ddeddf 2013 **gall y cyrff canlynol, cyn pen 28 diwrnod, atgyfeirio cynigion i Weinidogion Cymru** i'w hystyried:

- i. awdurdod lleol arall y mae'r cynigion yn effeithio arno;
- ii. y corff crefyddol priodol ar gyfer unrhyw ysgol yr effeithir arni; (os mai un o ysgolion yr Eglwys yng Nghymru neu Eglwys Rufain yw hi, yr awdurdod esgobaethol priodol fydd y corff hwn);
- iii. corff llywodraethu ysgol wirfoddol neu sefydledig sy'n destun cynigion;
- iv. ymddiriedaeth sy'n dal eiddo ar ran ysgol wirfoddol neu sefydledig sy'n destun cynigion; a
- v. sefydliad addysg bellach y mae'r cynigion yn effeithio arno.

Bydd angen i'r cyrff sy'n atgyfeirio'r cynigion ddweud pam maent yn credu bod yr awdurdod lleol wedi gwneud y penderfyniad anghywir. Bydd Gweinidogion Cymru yn penderfynu a yw'r cynigion yn effeithio ar y cyrff y cyfeirir atynt yn i, ii a iv ac felly a oes angen eu hystyried. Os bydd gofyn i Weinidogion Cymru ystyried cynnig, rhaid i'r awdurdod lleol roi copïau iddynt, os gwneir cais am hynny, o'r gwrthwynebiadau statudol ac unrhyw wybodaeth arall y bydd Gweinidogion Cymru'n ei hystyried yn angenrheidiol.

Os bydd angen iddynt ystyried cynnig **gall Gweinidogion Cymru benderfynu** cymeradwyo neu wrthod cynigion neu eu cymeradwyo gydag addasiadau. Byddai

addasiadau fel arfer ond yn cynnwys newidiadau i faterion fel amseru gweithredu neu niferoedd derbyn a bydd angen i Weinidogion Cymru ymgynghori â'r cynigydd a'r corff llywodraethu ac awdurdod lleol perthnasol (pan nad nhw yw'r cynigydd) ynghylch unrhyw addasiadau.

Camau gweithredu pellach i bartïon anfodlon

Ni all neb, ac eithrio'r rhai a restrir uchod, atgyfeirio penderfyniad awdurdod lleol at Weinidogion Cymru. Felly nid oes **'proses apelio'** ar gael i wrthwynebwyr y **tu hwnt i'r cyfnod gwrthwynebu** sy'n digwydd cyn penderfynu ar y cynnig. Byddai'r opsiwn terfynol, sef ceisio Adolygiad Barnwrol o'r penderfyniad, ar gael i rywun o hyd pe bai wedi defnyddio'r holl opsiynau a oedd ar gael iddynt, sef, yn ei hanfod dim ond y cyfnod gwrthwynebu ffurfiol. Mae'n bosibl cwyno am gamweinyddu i'r Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus hefyd er y byddai hyn yn berthnasol i'r broses a gafodd ei dilyn, nid i'r penderfyniad ei hun.

Cynigion gan Lywodraeth Cymru

Mae Deddf Safonau a Threfniadaeth Ysgolion (Cymru) 2013 yn rhoi pwerau i Weinidogion Cymru ymyrryd a gwneud eu cynigion eu hunain ar gyfer trefniadaeth ysgolion.

Gall Gweinidogion Cymru gyhoeddi cynnig i unioni sefyllfa lle bydd gormod neu brinder lleoedd mewn ysgolion, lle byddant eisoes wedi cyfarwyddo awdurdod lleol neu gorff llywodraethu i wneud hynny. Mae'r pwerau hyn yn cael eu hystyried yn gyffredinol yn y Cod yn bwerau i'w rhoi ar waith pan fetho popeth arall a byddant yn cael eu defnyddio pan fyddai awdurdod lleol wedi methu â sicrhau:

- bod ei ardal yn cael ei gwasanaethu gan ysgolion sy'n ddigonol o ran nifer, cymeriad a chyfarpar i ddarparu cyfleoedd addysg priodol i bob disgybl; neu
- bod gan bob plentyn yn ei ardal fynediad rhesymol at un o'r ysgolion hynny; neu
- bod cyllid ar gyfer addysg yn gost-effeithiol a bod adnoddau'n cael eu defnyddio i sicrhau'r deilliannau addysgol gorau i blant a phobl ifanc.

Yn yr un modd â chynigion gan gyrrff llywodraethu ac awdurdodau lleol, rhaid i Weinidogion Cymru gyhoeddi'r cynnig yn yr un ffordd ag y nodir yn y Cod a bydd cyfnod gwrthwynebu 28 diwrnod ar gael hefyd i unrhyw un wrthwynebu. Os cyflwynir gwrthwynebiad, rhaid i Weinidogion Cymru drefnu i gynnal **ymchwiliad**

Ileol i ystyried y cynnig. Rhaid cyfeirio unrhyw gynigion eraill ynghylch trefniadaeth ysgolion sydd wedi'u cyhoeddi ond nad oes penderfyniad wedi ei wneud yn eu cylch at yr ymchwiliad lleol os bydd Gweinidogion Cymru yn credu bod cysylltiad rhyngddynt â'r cynnig gwreiddiol, oni fyddant o'r farn y dylid eu gweithredu.

Bydd yr ymchwiliad lleol yn cael ei gynnal gan unigolyn a benodir gan Weinidogion Cymru a fydd yn ystyried eu hadroddiad ac yna naill ai'n mabwysiadu (gydag addasiadau neu hebddynt), neu'n penderfynu peidio â mabwysiadu eu cynnig hwy eu hunain. Gallant hefyd gymeradwyo (gydag addasiadau neu hebddynt) neu wrthod unrhyw gynigion eraill a gaiff eu cyfeirio at yr ymchwiliad lleol. Neu, gall Gweinidogion Cymru gyflwyno rhagor o gynigion, ac os felly, ni fydd yn ofynnol cynnal ymchwiliad lleol arall, ac, ar ôl ystyried unrhyw wrthwynebiadau, gallant benderfynu mabwysiadu'r cynnig (gydag addasiadau neu hebddynt).

Gall Gweinidogion Cymru hefyd gyhoeddi cynnig i sicrhau **darpariaeth ranbarthol i blant ag AAA**, lle byddant eisoes wedi cyfarwyddo awdurdod lleol neu gorff llywodraethu i wneud hynny. Mae ganddynt y pŵer hefyd i gyhoeddi cynigion i ad-drefnu addysg chweched dosbarth. Mewn achosion o'r fath, rhaid i Weinidogion Cymru ymgynghori ynglŷn â'r cynnig a'i gyhoeddi wedyn yn unol â'r prosesau yn y Cod ac, fel sy'n wir am gynigion eraill, bydd cyfnod gwrthwynebu 28 diwrnod. Ar ôl ystyried unrhyw wrthwynebiadau, caiff Gweinidogion Cymru naill ai fabwysiadu'r cynnig (gydag addasiadau neu hebddynt) neu benderfynu peidio â'i fabwysiadu.